

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	20 Ebrill 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	5 Mai 2021

PWNC

Eitem :SICRHAU FOD Y GRANT CYMORTH TAI YN ARWAIN AT Y GEFNOGAETH ORAU POSIB I'R DIGARTREF YNG NGWYNEDD

PENDERFYNIAD

- Gefnogwyd blaenoriaethu'r defnydd o'r Grant Cymorth Tai fel yr amlinellwyd ym mharagraff 36 o'r adroddiad.
 - Gefnogwyd yr egwyddor i barhau i gydweithio gyda darparwyr allanol er mwyn cynnig gwasanaethau cefnogol arbenigol ychwanegol i'r hyn y gellir ei ddarparu'n fewnol.
 - Nodwyd y risg ynghlwm i'r grant refeniw yn y dyfodol (fel pob grant refeniw arall) a'r mesur lliniaru a nodwyd ym mharagraff 39 o'r adroddiad hwn.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd fod grant Cyngor Tai yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gynorthwyr dros 2,000 o bobl yn flynyddol yng Ngwynedd i fyw'n annibynnol. Nodwyd fod y rhaglen yn darparu cefnogaeth hanfodol i bobl sy'n wynebu amgylchiadau tai anodd iawn ac yn cynorthwyo'r rhai bregus mewn cymdeithas i fyw'n annibynnol.

Yn 2019 bu i'r Llywodraeth ragrybuddio y byddai'r Llywodraeth yn ail edrych ar y grant hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddigartrefedd yn cael ei amlygu yn ystod cyfnod covid-19, bu i ddyfodol y grant newid yn llwyr. Mynegwyd fod dyraniad ychwanegol o £1.6m ac felly mae angen sicrhau fod yr adran yn gwneud y defnydd gorau o'r arian newydd er mwyn darparu cefnogaeth i'r digartref yng Ngwynedd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
